# Cofnodion o gyfarfod Cyngor Cymuned Henfynyw ar y 14eg o Dachwedd 2017 yn Neuadd Goffa Llwyncelyn am 7.30 yh

**Presennol:** Cynghorwyr: Garym Roberts (Is-Gadeirydd),
Gerallt Davies, Wyn Jones, Barry Owen, Wyn Evans a Ruby Williams.

**Hefyd yn bresennol:** Y Cynghorydd Sirol Marc Davies a'r Clerc.

**Ymddiheuriadau:** Cynghorwyr Carys Morgan, Eiddwen Merritt a Jocelyn Andrew.

**Datgelu buddiannau:** Yn cael eu parchu.

**Cofnodion:** Darllenwyd cofnodion Mis Hydref a'u cafwyd yn gywir.

**Codi o'r cofnodion:**

Soniodd y clerc ei bod wedi gwneud trefniadau â Garej Dryslwyn , Llwyncelyn ac hefyd a'r Adran Wastraff yn y Cyngor Sir i ddod a'i cerbyd ail-gylchu yno i gwrdd a'r cyhoedd lle y byddent yn rhoi cyngor a syniadau.

Ar ol sylweddoli fod arwydd Dderwen Gam ddim yn rhestredig dan CADW gwnaeth y clerc ysgrifennu i'r Adran Technegol yn gofyn iddynt edrych mewn i'w drwsio a'i beintio.

**Materion Cynllunio:**

Dim.

**Arolwg Etholaethau Seneddol:**

Derbyniwyd lythyr oddiwrth y Comisiwn Ffiniau yn cyhoeddi ei Cynigion Cychwynnol ar gyfer newidiadau i etholiadau Seneddol yng Nghymru.

Ceir Adroddiad o'r Cynigion Diwygiedig ar wefan y Comisiwn: www.comffin-cymru.gov.uk neu mewn 54 o leoliadau cyhoeddus ar hyd a lled Cymru.

**Ymgynghoriad Casglu Gwastraff:**

Cyhoeddwyd gan y Cyngor Sir fod yna Ymgynghoriad Cyhoeddus i newidiadau i'r Gwasanaeth Casglu Gwastraff ar
www.ceredigion.gov.uk/ymgynghoriadau

Hefyd cynigwyd arolwg i'w lenwi yn ogystal a'r ddogfen i'w ddarllen.

**Adolygiad Cynllun Datblygu Lleol:**
Darllenwyd lythyr oddiwrth Rheolwr y Gwasanaethau Cynllunio Polisi ac Ymchwil yn sôn am y gwaith i ddechrau ar y Cynllun Datblygu Lleol newydd. Gofynwyd i'r aelodau i ddarllen y drafft naill o Neuadd Cyngor Ceredigion yn Penmorfa neu ar wefan yr Awdurdod: www.ceredigion.gov.uk/ldp ac os oes sylwadau ganddynt gellir eu trafod a'u danfon ymlaen yn ein cyfarfod mis nesaf.
**Ystyried Cais Ariannol**
Derbyniwyd lythyr o Bwyllgor Gwelliannau Tref Aberaeron yn gofyn am gyfraniad ariannol tuag ei Apel Cerbyd i'r Ymatebwr Cyntaf i Ganol Ceredigion. Penderfynwyd yn unfrydol i gyfrannu £200 at yr achos.
Derbyniwyd anfoneb oddiwrth Swyddfa Archwilio Cymru o £163.50 am archwiliad o gyfrifon 2016/17.
Derbyniwyd adolygiad o'r gyllideb hyd at 13eg o Dachwedd 2017.
**Unrhyw Fater Arall:**
Dywedodd y Cynghorwyr Wyn Jones a Barry Owen eu bod wedi mynychu Cyfarfod Ardal Un Llais Cymru lle y trafodwyd sawl pwynt diddorol.
Soniodd ein Cynghorydd Sirol Marc Davies fod trefniadau yn mynd ymlaen ynglyn â'r cynllun i gael palmant lawr Rhiwgoch.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.35.

Bydd y cyfarfod nesaf ar y 12fed o Ragfyr.